Cofnodion Iechyd Cyhoeddus Cymru heb eu Cadarnhau o Gyfarfod Cyhoeddus Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd Iechyd Cyhoeddus Cymru 15 Medi 2026 13:00 Cynhaliwyd yn 3.5 CQ2 a thrwy Microsoft Teams

Yn bresennol:		
Catherine Purcell	(CP)	Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol)
Clare Jenkins	(CJ)	Is-Gadeirydd Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chyfarwyddwr Anweithredol (ar gyfer eitem 2.1-3.4, 3.6)
Sian Griffiths	(SG)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd)
Tamsin Ramasut	(TR)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Cydraddoldeb ac Amrywiaeth)
Yn bresennol:		
Alisha Davies	(AD)	Pennaeth Ymchwil a Datblygu
Bethan Bowden	(BB)	Ymgynghorydd Sgrinio Iechyd y Cyhoedd (ar gyfer eitem 3.4)
Christopher Thomas	(CT)	Pennaeth Gweithrediadau (ar gyfer eitem 3.4)
Dafydd James	(DJ)	Pennaeth Profiad a Gwasanaethau Digidol
Danielle Gething	(DG)	Pennaeth Rheoli Risg (ar gyfer eitem 2)
Emily van de Venter	(EV)	Ymgynghorydd Gwella Iechyd (ar gyfer eitem 3.5)
Iain Bell	(IB)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth ac Ymchwil Iechyd y Cyhoedd
Jim McManus	(JM)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Iechyd a Llesiant
Kirsty Little	(KL)	Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd (Deallusrwydd Iechyd) (ar gyfer eitem 3.7)
Laura Holt	(LH)	Uwch Swyddog Cydlynu Iechyd Rhyngwladol (ar gyfer eitem 3.2)
Liam Scott	(LS)	Arsylwi
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Liz Green	(LG)	Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd (Polisi ac Iechyd Rhyngwladol) (ar gyfer eitem 3.2)
Louisa Nolan	(LN)	Pennaeth Gwyddor Data (ar gyfer eitem 3.1 a 3.3)
Mariana Dyakova	(MD)	Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd (ar gyfer eitem 3.2)
Paul Veysey	(PV)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd (ar gyfer eitem 2.1-3.2, 3.6)
Stuart Silcox	(SS)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig

Heb ei gadarnhau

Sumina Azam	(SA)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol
Tom Fowler	(TF)	Dirprwy Gyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio
Ymddiheuriadau:		
Claire Birchall	(CB)	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig
Julie Bland	(JB)	Rheolwr Busnes a Gweithrediadau'r Gyfarwyddiaeth
Meng Khaw	(MK)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
Ysgrifenyddiaeth:		
Alex Rees	(AR)	Swyddog Cymorth y Bwrdd
Ffion Lloyd	(FL)	Swyddog Cymorth y Bwrdd
Reanne Reffell	(RR)	Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd a Pholisi
Dechreuodd y cyfarfod am 13:00		

KRIC 1/2026.09.15	**Croeso ac Ymddiheuriadauam Absenoldeb**
Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawodd bawb oedd yn bresennol. **Nododd** y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i gefnogi cywirdeb y cofnodion ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu ar ôl cytuno ar y cofnodion yn y cyfarfod canlynol ar 15 Rhagfyr 2026. Atgoffodd y Cadeirydd pawb a oedd yn bresennol y dylid defnyddio swyddogaeth sgwrsio'r cyfarfod ar gyfer materion logistaidd a gweinyddol yn unig, fel y gellid dibynnu ar y recordiad fel cofnod ffurfiol o'r cyfarfod. Nododd y Cadeirydd hefyd fod trefn yr agenda wedi'i newid i ddarparu ar gyfer argaeledd cyflwynwyr.	
KRIC 1.1/2026.09.15	**Datganiadau o Fuddiant**
Datganodd IB fuddiant posibl mewn perthynas ag eitemau digidol ar yr agenda, gan nodi ei rôl fel Cadeirydd Bwrdd y Rhaglen Ymchwil Data Genedlaethol ar ran Llywodraeth Cymru. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau eraill o fuddiant heblaw am y rhai a gofnodwyd yn y Gofrestr Datganiadau Buddiant.	
KRIC 2/2026.09.15	**Sicrwydd Risg a Rôl y Bwrdd/Pwyllgorau**
KRIC 2.1/2026.09.15	**Rheoli Risg**
KRIC 2.1.1/2026.09.15	**Cofrestr Risg Strategol**

Heb ei gadarnhau

Amlinellodd DG fframwaith sicrwydd risg y Sefydliad, gan bwysleisio rôl y Pwyllgor wrth gael sicrwydd drwy dystiolaeth ddibynadwy a thrionglog. Cadarnhaodd fod Risgiau Strategol 1, 4 a 5 yn parhau o fewn eu lefelau goddefiant cymwys.

- **Risg Strategol 1:** Cynghorodd JM fod gwaith pellach wedi'i gynllunio i lunio adroddiadau risg byrrach sy'n canolbwyntio'n fwy clir ar y risg yn hytrach na chynlluniau gweithredu manwl. Byddai amlder y diweddariadau hefyd yn cael ei ystyried, gan gydnabod bod risgiau strategol yn gyffredinol yn newid yn arafach na risgiau gweithredol.
- **Risg Strategol 4:** Adroddodd SA fod y sgôr wedi cynyddu i 12 ers ei chyhoeddi ond ei bod yn parhau o fewn y lefel goddefiant. Roedd tonnau gwres a thanau gwyllt diweddar wedi cael eu hasesu yn erbyn y Cynllun Ymateb i'r Hinsawdd, a nodwyd bod bylchau yn y gweithlu a'i fod yn fregus. Roedd gwaith hefyd yn parhau gyda Llywodraeth Cymru ynghylch cytundeb lefel gwasanaeth arfaethedig Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA).
- **Risg Strategol 5:** Cynghorodd IB fod y risg ddiwygiedig yn adlewyrchu uchelgeisiau trawsnewid ehangach y Sefydliad ac yn parhau i gael ei datblygu wrth i'w gamau gweithredu a'i reolaethau aeddfedu.

Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau a chwestiynau, a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- Argymhellodd SG y dylid rhannu sleidiau sicrwydd risg DG gyda'r Cyfarwyddwyr Anweithredol newydd.
  Cam Gweithredu: LB
- Mewn ymateb i gwestiwn SG ynghylch ystyriaeth UKHSA o safbwyntiau Iechyd Cyhoeddus Cymru, dywedodd SA fod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Iechyd Cyhoeddus Cymru helpu i lywio ei hymateb, gan gefnogi dull cydlynol.
- Gofynnodd SG a fyddai pwysau rheolaidd ar y gweithlu ac adnoddau yn cael eu hadlewyrchu o fewn Risg Strategol 5. Cadarnhaodd IB y byddai cynllunio'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) yn ystyried uchelgeisiau sefydliadol ochr yn ochr â chapasiti a galluogrwydd. Roedd cefnogaeth gan asiantaethau yn y tymor byr a threfniadau cyflenwi tymor hwy yn cael eu hystyried i fynd i'r afael â phrinder peirianwyr data a chwmwl.
- Cwestiynodd TR sut y dylid rheoli newid hinsawdd lle roedd agweddau ar y risg wedi dod i'r amlwg. Esboniodd DG ac SA fod y sefyllfa yn broblem weithredol a risg barhaus. Byddai gwerthusiad o'r ymateb i ddigwyddiadau diweddar, ynghyd â thystiolaeth allanol, yn llywio'r fframio, y sgôr, y rheolaethau a'r mesurau lliniaru yn y dyfodol.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch rheoli Risg Strategol o fewn y Sefydliad.

KRIC 2.1.2/2026.09.15	**Cofrestr Risg Corfforaethol**

Dywedodd DG fod y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn parhau i gael ei hadolygu'n barhaus, gan gynnwys archwiliadau manwl strwythuredig y Tîm Arweinyddiaeth, ac roedd dull cyson wedi'i ddatblygu ar eu cyfer.

Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau a chwestiynau, a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- Tynnodd IB sylw at y risg Audit+ a chadarnhaodd fod Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) wedi derbyn y ffordd ymlaen arfaethedig, a oedd yn bwysig i

Heb ei gadarnhau

sgrinio canser yr ysgyfaint a pharhad busnes ehangach. Ar ôl i'r mater gael ei uwchgyfeirio drwy Lywodraeth Cymru, byddai'r ffocws nawr yn symud i fonitro darpariaeth IGDC.
- Byddai adroddiadau Strategaeth Ddigidol a Data yn y dyfodol yn nodi dibyniaethau allweddol ar ddarpariaeth Iechyd a Gofal Iechyd i gefnogi goruchwyliaeth y Pwyllgor.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch rheoli Risgiau Corfforaethol o fewn ei gylch gwaith.

KRIC 3/2026.09.15	**Eitemau i'w sicrhau**
KRIC 3.1/2026.09.15	**Strategaeth Ddigidol a Data**

Rhoddodd IB ddiweddariad ar gyflawni'r Strategaeth Digidol a Data, gan dynnu sylw at gynnydd ar draws rhaglenni trawsnewid digidol gan gynnwys defnyddio System Rheoli Gwybodaeth Labordy (LIMS), mudo i'r cwmwl, Diogelu Iechyd Digidol a datblygiadau sy'n gysylltiedig â sgrinio. Nododd fod sawl rhaglen yn parhau i symud ymlaen yn llwyddiannus, er bod risgiau cyflawni yn parhau mewn perthynas â dibyniaeth ar gyflenwyr, capasiti'r gweithlu ac amserlenni rhaglenni. Byddai angen goruchwyliaeth barhaus ar draws y portffolio i gefnogi cyflawniad.

Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau a chwestiynau, a chodwyd y pwyntiau canlynol:
- Croesawodd SG y cynnydd ond ailadroddodd bryder ynghylch y pwysau ar y gweithlu ac adnoddau y cyfeiriwyd atynt drwy gydol y papurau. Gofynnodd SG hefyd am y wybodaeth ddiweddaraf am fynediad at Ddata Gofal Sylfaenol.
    - Cytunodd IB fod pwysau ar y gweithlu a blaenoriaethu yn parhau i fod yn bryder ac nad oedd unrhyw gynnydd wedi bod o ran mynediad at Ddata Gofal Sylfaenol. Y llwybr posibl presennol oedd y gwaith Cymunedol o'r Cychwyn sy'n cael ei arwain gan y Prif Swyddog Meddygol, a allai helpu i ddangos effaith y bwlch data ar weithgarwch atal. Nododd IB fod y mater yn parhau i gael ei godi gyda Llywodraeth Cymru.

Rhoddodd LN ddiweddariad am weithgarwch llywodraethu Deallusrwydd Artiffisial (AI). Adroddodd fod proses yr Awdurdod Dylunio Deallusrwydd Artiffisial bellach wedi'i sefydlu ac wedi cymeradwyo sawl menter sy'n gysylltiedig â deallusrwydd artiffisial i gefnogi gweithgarwch gweithredol a chyflenwi gwasanaethau. Roedd cynnydd hefyd wedi'i wneud ar ganllawiau staff, hyfforddiant a chyfathrebu, tra bod polisi deallusrwydd artiffisial drafft wedi bod yn destun ymgynghoriad a byddai'n mynd trwy brosesau llywodraethu.

Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau a chwestiynau pellach, a chodwyd y pwyntiau canlynol:
- Gofynnodd SG a oedd dysgu a phrofiadau yn ymwneud â deallusrwydd artiffisial yn cael eu rhannu ar draws pedair gwlad y DU.
    - Dywedodd LN nad oedd hyn wedi digwydd yn ddiweddar a dylid ei ailystyried. Nododd fod Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn ymwneud â gwaith IGDC ar y strategaeth genedlaethol ar gyfer deallusrwydd artiffisial.
- Gofynnodd TR a fyddai defnyddio deallusrwydd artiffisial o fewn rhaglenni sgrinio yn parhau i olygu bod angen i fodau dynol fod yn gysylltiedig.

heb eu cadarnhau

- Cadarnhaodd LN y byddai bod dynol bob amser yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau ac na fyddai deallusrwydd artiffisial yn gwneud penderfyniadau'n annibynnol. Ar gyfer Sgrinio Canser yr Ysgyfaint, dywedodd fod y dull a fwriedir yn cael ei ddeall fel un sy'n cynnwys deallusrwydd artiffisial i gefnogi darllenydd dynol, gan helpu i leihau pwysau amser tra'n cadw goruchwyliaeth gan fod dynol.
- Eglurodd IB fod deddfwriaeth diogelu data yn ei gwneud yn ofynnol i fodau dynol fod yn rhan o benderfyniadau meddygol a sicrhaodd y Pwyllgor y byddai cynigion deallusrwydd artiffisial yn cydymffurfio â'r gofyniad cyfreithiol hwn.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** fod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyflawni ei Strategaeth Digidol a Data drwy'r llwybr y cytunwyd arno a bod ganddo drefniadau llywodraethu cadarn ar waith ar gyfer rheoli gwaith digidol a data.

KRIC 3.2/2026.09.15	**Strategaeth Iechyd Rhyngwladol**

Cyflwynodd SA ac LG gynnydd yn erbyn y Strategaeth Iechyd Rhyngwladol, gan dynnu sylw at y gwaith a wnaed mewn ymateb i adborth blaenorol y Pwyllgor. Roedd y gweithgarwch wedi canolbwyntio ar ddangos gwerth ac effaith gweithgarwch iechyd rhyngwladol, cryfhau dulliau o gyfathrebu manteision, ehangu gweithgarwch partneriaeth a datblygu dulliau o werthuso. Adroddwyd hefyd ar gynnydd ynghylch gweithgarwch Canolfan Gydweithio Sefydliad Iechyd y Byd a phartneriaethau rhyngwladol ehangach.

Cyflwynwyd animeiddiad yn amlinellu pwrpas, manteision ac effaith gweithgarwch iechyd rhyngwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Yn dilyn y cyflwyniad, gofynnodd y Cadeirydd a oedd fersiwn Gymraeg o'r animeiddiad ar gael a sut y byddai'n cael ei defnyddio.

- Cadarnhaodd LG fod fersiwn Gymraeg ar gael a dywedodd fod yr animeiddiad eisoes yn cael ei rannu a'i ddefnyddio gan sefydliadau partner, gan gynnwys Partneriaethau Iechyd Byd-eang Cymru a chymheiriaid yn Iechyd Cyhoeddus yr Alban a Llywodraeth Cymru.

Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau a chwestiynau, a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- Croesawodd SG y cynnydd a'r gydnabyddiaeth gynyddol o waith iechyd rhyngwladol y Sefydliad, yn enwedig y Canolfannau Cydweithio Sefydliad Iechyd y Byd. Anogodd y tîm i ganolbwyntio'n fwy penodol ar ganlyniadau, yn hytrach na gwerthuso yn unig, er mwyn dangos a chyfiawnhau'r gwahaniaeth a wnaed gan y gwaith. Awgrymodd SG hefyd y dylid defnyddio'r animeiddiad yng nghyfarfod Cymdeithas Ryngwladol Sefydliadau Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol sydd ar ddod yng Nghaerdydd i godi proffil y gwaith.
  - Cytunodd SA y dylid rhoi mwy o bwyslais ar ganlyniadau a'r gwahaniaeth a wneir. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r derminoleg hon fwyfwy a bod cynllunio sy'n seiliedig ar ganlyniadau hefyd yn cael ei ystyried trwy drafodaethau ar lefel gweithrediaethau a chyfarwyddiaethau.
  - Tynnodd MD sylw at Fforwm Iechyd Cyhoeddus Byd-eang Pedair Gwlad y DU sy'n parhau fel enghraifft o ganlyniad gwaith rhyngwladol y sefydliad.

Heb eu cadarnhau

Nododd hefyd fod statws Iechyd Cyhoeddus Cymru fel Canolfan Gydweithio Sefydliad Iechyd y Byd wedi ei alluogi i ddarparu gwybodaeth a chyfrannu at ymgynghoriadau ac agendâu strategol byd-eang ac Ewropeaidd, gan gynnwys drwy ymgysylltu â Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.
    - Tynnodd SG sylw at bwysigrwydd parhaus grŵp Prif Swyddogion Meddygol y Pedair Gwlad a chroesawodd y gwaith a wnaed i'w gynnal.
- Pwysleisiodd y Cadeirydd yr angen i wahaniaethu'n glir rhwng allbynnau a chanlyniadau ac i ddogfennu a dathlu'r ddau yn briodol.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Ystyriodd** y gwaith a oedd wedi'i wneud a chynlluniau ar gyfer y dyfodol ar gyfer Strategaeth Iechyd Ryngwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Cymerodd **sicrwydd** ynghylch y cynnydd hyd yn hyn.

KRIC 3.3/2026.09.15	**Fframwaith Canlyniadau**

Cyflwynodd IB yr eitem ac amlinellodd system mesur canlyniadau Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n integreiddio canlyniadau strategol, metrigau cyflawni, modelu polisi a gwerthuso. Adroddodd am gynnydd o ran diffinio mesurau canlyniad a metrigau cyflawni, gan nodi bod angen datblygiad pellach mewn perthynas â modelu a gwerthuso polisïau. Er nad oedd y system wedi'i hymgorffori'n llawn eto mewn cynllunio sefydliadol a monitro perfformiad arferol, roedd gwaith yn mynd rhagddo i gryfhau ei chymhwysiad ymarferol ar draws y sefydliad.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol ddiweddariad ar weithgarwch gwerthuso, gan nodi ffocws ar werthuso canlyniadau, wedi'i ategu gan werthuso prosesau i ddeall y ffactorau sy'n dylanwadu ar effeithiolrwydd mewn gwahanol gyd-destunau. Roedd dulliau ansoddol a meintiol cadarn yn cael eu cymhwyso ar draws y blaenoriaethau strategol, gan gynnwys dulliau cymharu i gryfhau dealltwriaeth o gyfraniad Iechyd Cyhoeddus Cymru ac ymyriadau partneriaid at y canlyniadau a arsylwyd. Roedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu'r rhaglen arfaethedig o weithgarwch gwerthuso ar gyfer y chwech i ddeuddeg mis nesaf.

Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau a chwestiynau, a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- Croesawodd TR ddatblygiad y system fesur ac ystyriodd ei bod yn sylfaen bwysig ar gyfer gwaith pellach.
- Gofynnodd CP am eglurhad ynghylch y capasiti dadansoddol sydd ar gael i gyflawni'r rhaglen.
    - Cynghorodd IB fod y ddarpariaeth yn gofyn am gydweithio rhwng arbenigwyr gwerthuso, gwyddor data ac iechyd y cyhoedd ar draws y Sefydliad. Ychwanegodd LN y dylai mudo i'r cwmwl gynyddu awtomeiddio a lleihau dibyniaeth ar brosesau â llaw, tra bod AD wedi amlinellu mesurau i reoli capasiti, gan gynnwys blaenoriaethu gwerthusiadau, rhoi'r gorau i waith lle nad oedd gwerthusiad ystyrlon yn bosibl, a sicrhau adnoddau arbenigol ychwanegol trwy Gymrodoriaeth Ymchwil ac Arloesi'r DU sy'n canolbwyntio ar efelychu polisi.
- Cefnogodd JM y dull cydweithredol a chyfeiriodd at waith o fewn ei Gyfarwyddiaeth i ddatblygu cadwyni gwerth a dangos effaith a gwerth.

Heb eu cadarnhau

Pwysleisiodd yr angen i ymgorffori diwylliant sefydliadol lle mae effaith a gwerth yn rhan annatod o gynllunio a chyflawni, gyda gwerthuso yn rhan o ddull ehangach o ddangos gwerth a chefnogi cyfrifoldebau gwerth gorau'r Sefydliad.
    - Nododd IB ddyluniadau lled-arbrofol fel cyfle pwysig i werthuso ymyriadau iechyd y cyhoedd mewn lleoliadau byd go iawn. Awgrymodd y gallai fod angen hyfforddiant sefydliadol i gynyddu dealltwriaeth a chymhwyso'r dulliau hyn, gan nodi bod capasiti perthnasol yn cael ei ddatblygu o fewn y tîm gwerthuso.
    - Ychwanegodd CP y gallai gwerthusiad realistig helpu i nodi'r cyd-destunau a'r amodau lle'r oedd ymyriadau'n gweithio, i bwy yr oeddent yn gweithio a pham.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Cymerodd **sicrwydd** ynghylch defnyddio system fesur Iechyd Cyhoeddus Cymru a'i rhoi ar waith.
- Cymerodd **sicrwydd** ynghylch y gwaith i ymgorffori'r system fesur ymhellach yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig ac adrodd ar berfformiad.

KRIC 3.4/2026.09.15	**Cyfleoedd Digidol yn Sgrinio**

Rhoddodd IB ddiweddariad ar gyfleoedd digidol mewn sgrinio, gan dynnu sylw at gynnydd wrth gryfhau seilwaith digidol a chefnogi trawsnewid ar draws gwasanaethau sgrinio. Cynghorodd fod disodli'r system sgrinio'r fron bresennol wedi dod yn flaenoriaeth gynyddol a phwysleisiodd y byddai angen cefnogi gwelliannau digidol trwy drawsnewid gwasanaethau ehangach er mwyn gwireddu'r manteision llawn.

Cadarnhaodd BB fod rhaglen sylweddol o waith digidol eisoes ar y gweill a thynnodd sylw at y cyfle i ddatblygu cydrannau digidol y gellir eu hailddefnyddio a allai gefnogi nifer o raglenni sgrinio yn y dyfodol.

Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau a chwestiynau, a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- Gofynnodd SG ai'r uchelgais hirdymor oedd bod unigolion yn gallu cael mynediad at eu gwybodaeth a'u canlyniadau sgrinio ar draws gwahanol raglenni sgrinio trwy un llwyfan digidol.
    - Cynghorodd IB fod hwn yn opsiwn posibl yn y dyfodol ond y byddai angen ei brofi trwy waith dylunio a thrawsnewid sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr. Nododd fod profiadau mewn mannau eraill wedi tynnu sylw at bryderon ynghylch cyfleu canlyniadau heb gyfranogiad clinigol priodol. Awgrymodd y gallai atebion yn y dyfodol alluogi mynediad at gofnodion sgrinio a swyddogaethau digidol ehangach, ond pwysleisiodd y byddai angen profi'r dulliau hyn ymhellach a'u cyd-ddylunio â defnyddwyr gwasanaeth cyn eu rhoi ar waith.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Nododd** y sefyllfa ynghylch cyfleoedd digidol mewn sgrinio a chytunwyd y dylid blaenoriaethu'r gwaith o ddisodli'r System Sgrinio'r Fron Genedlaethol (NBSS) yn ystod y flwyddyn bresennol.
- Cymerodd **sicrwydd** fod gwaith ar y gweill i gryfhau sylfeini digidol sgrinio ochr yn ochr â gwaith i sefydlu rhaglen drawsnewid ar gyfer sgrinio, gan na fyddai

Heb ei gadarnhau

manteision llawn cyfleoedd digidol yn cael eu galluogi heb drawsnewid prosesau busnes a ffyrdd o weithio.

KRIC 3.5/2026.09.15	**Blaenoriaeth Strategol 2 - Hyrwyddo lles meddyliol a chymdeithasol**

Cyflwynodd JM ac EV ddiweddariad ar weithgarwch sy'n cefnogi Blaenoriaeth Strategol 2. Roedd hyn yn cynnwys ymchwil, cynhyrchu tystiolaeth, gwerthuso a gweithgarwch partneriaeth yn ymwneud â llesiant meddyliol a chymdeithasol ar draws amrywiaeth o leoliadau. Tynnodd EV sylw at gydweithio cynyddol ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru a chyda phartneriaid allanol i gryfhau gwerthuso, cefnogi darpariaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth a llywio datblygiad gwasanaethau yn y dyfodol.

Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau a chwestiynau, a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- Croesawodd TR ehangder y gwaith a wnaed a nododd yr amrywiaeth o ddulliau a ddefnyddir i gefnogi llesiant meddyliol a chymdeithasol. Gofynnodd a oedd gwasanaethau ieuenctid yn fwlch yn y rhaglen bresennol a thynnodd sylw at bwysigrwydd darparu cymorth i bobl ifanc sydd wedi ymddieithrio o addysg neu nad ydynt yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd.
    - Dywedodd EV fod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio gyda chynrychiolwyr gwasanaethau ieuenctid drwy rwydweithiau presennol a bod y mater hefyd yn cael ei ystyried drwy drafodaethau sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant. Cytunodd fod lle i weithio'n fwy uniongyrchol gyda gwasanaethau ieuenctid.
    - Nododd CP fod gwaith trawsnewid ehangach yn ymwneud â mynediad at gymorth iechyd meddwl i bobl ifanc hefyd ar y gweill ar lefel y Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru.
- Gofynnodd SG sut roedd y rhaglen yn mynd i'r afael ag anghenion pobl ifanc a phobl hŷn niwroamrywiol o fewn y dull cwrs bywyd.
    - Tynnodd EV sylw at waith sy'n ymwneud â chymorth iechyd creadigol i bobl ifanc sy'n aros am Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS), a oedd i bob golwg yn cefnogi nifer sylweddol o gyfranogwyr niwroamrywiol ac yn cael ei ystyried ar gyfer ymchwil pellach. Amlinellodd hefyd weithgarwch yn ymwneud â heneiddio'n iach, iechyd yr ymennydd a chysylltiadau cymdeithasol, a chynghorodd fod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn disgwyl cyfrannu at Fwrdd Rhaglen Niwroddatblygiadol arfaethedig Llywodraeth Cymru.
    - Anogodd CP ystyriaeth o niwroamrywiaeth y tu hwnt i lwybrau awtistiaeth yn unig ac amlygodd gyflyrau gan gynnwys anhwylder iaith ddatblygiadol ac anhwylder cydlyniad datblygiadol.
- Tynnodd SA sylw at waith ychwanegol a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru yn ymwneud â dulliau sy'n cael eu llywio gan drawma a chysylltiadau cymdeithasol ar draws cwrs bywyd. Cydnabu EV nad oedd rhywfaint o'r gweithgarwch hwn, ynghyd â gwaith ar ganllawiau amser sgrin i blant rhwng sero a saith oed, wedi'i adlewyrchu'n llawn yn yr adroddiad oherwydd amseriad ei baratoi.
- Tynnodd AD sylw at y cydweithio agos rhwng cydweithwyr Ymchwil, Data a Digidol ac arweinwyr Blaenoriaeth Strategol 2. Nododd fod gweithgarwch gwerthuso ac ymchwil yn helpu i nodi bylchau gwybodaeth a llywio blaenoriaethau'r dyfodol ar draws y system ehangach.

Heb eu cadarnhau

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** fod ymchwil, data, tystiolaeth a gweithgarwch gwerthuso yn mynd rhagddo i gefnogi Blaenoriaeth Strategol 2: Hyrwyddo Llesiant Meddyliol a Chymdeithasol

KRIC 3.6/2026.09.15	**Blaenoriaeth Strategol 5 - Amddiffyn Iechyd a Gwasanaethau Heintiau**

Cyflwynodd TF yr adroddiad ac amlinellodd y cynnydd yn erbyn Blaenoriaeth Strategol 5 a'i hintegreiddio i gynllunio sefydliadol a chyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Pwysleisiodd fod cyflawni llwyddiannus yn dibynnu ar gyfraniadau o bob rhan o'r Sefydliad a thynnodd sylw at enghreifftiau o waith cydweithredol i gefnogi amcanion diogelu iechyd.

Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau a chwestiynau, a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- Croesawodd TR strwythur yr adroddiad a'i gyflwyniad o ehangder gweithgarwch Diogelu Iechyd. Cwestiynodd pryd y byddai'r gwaith a ddisgrifiwyd yn trosi'n newidiadau mesuradwy mewn gwasanaethau a chanlyniadau i'r boblogaeth. Nododd hefyd raddfa gweithgarwch y sefydliad ond heriodd sut y byddai'r Pwyllgor yn penderfynu a oedd ymyriadau'n gweithio, pryd y byddai angen newid dull gweithredu, a phryd y byddai symudiad yn dod yn weladwy yn y mesurau poblogaeth perthnasol.
    - Cydnabu TF fod yr adroddiad yn canolbwyntio'n bennaf ar gyflawni a gwreiddio yn hytrach na chanlyniadau. Cynghorodd y gallai mesurau canlyniad gynnwys nifer y bobl sy'n cael eu brechu, mesurau ymateb i achosion ac adborth gan ddefnyddwyr, a rhagwelodd y byddai datblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig yn y dyfodol yn rhoi mwy o bwyslais ar ganlyniadau. Derbyniodd y byddai angen i adroddiadau yn y dyfodol ddangos yr effaith sefydliadol yn well.
- Gofynnodd CP am gyflwyno data canlyniad ac effaith i gyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol, yn ddelfrydol yn y cyfarfod nesaf neu, os na fydd hynny'n bosibl, y cyfarfod canlynol.
    - Er bod TF wedi cytuno i archwilio pa wybodaeth y gellid ei darparu, rhybuddiodd efallai nad yw data effaith ar gael eto. Cydnabu fod angen i'r Pwyllgor weld yr effaith yn well a chytunodd y dylai adroddiadau yn y dyfodol ganolbwyntio fwyfwy ar y maes hwn.
- Croesawodd SG yr adroddiad ond roedd yn cefnogi rhoi ffocws cryfach ar ganlyniadau ac effaith ddangosadwy. Gan ddefnyddio imiwneiddio fel enghraifft, awgrymodd y dylai adroddiadau yn y dyfodol ddangos cyfraniad Iechyd Cyhoeddus Cymru at ganlyniadau yn well, gan gynnwys drwy gydweithio â byrddau iechyd ac ymdrechion i fynd i'r afael â materion fel anghydraddoldebau o ran nifer y bobl sy'n cael eu himiwneiddio.
- Dywedodd IB fod y Fframwaith Canlyniadau eisoes yn cynnwys mesurau canlyniad perthnasol, yn bennaf nifer y bobl sy'n cael eu brechu, ynghyd â mesurau sy'n ymwneud ag iechyd rhywiol, nifer yr achosion o glefydau a rheoli heintiau. Roedd yr Adroddiad Perfformiad Integredig yn darparu mecanwaith y gallai'r Bwrdd ei ddefnyddio i fonitro'r mesurau hyn.
- Nododd IB hefyd mai gwerthuso yw'r bwlch pennaf. Roedd angen mwy o eglurder ynghylch yr ymyriadau penodol a oedd yn cael eu cynnal, sut y byddai

Heb eu cadarnhau

eu heffeithiau'n cael eu gwerthuso ac a fyddai ymyriadau aneffeithiol yn cael eu newid yn brydlon.
- Croesawodd SA integreiddio gweithgarwch o bob rhan o'r Sefydliad yn yr adroddiad, yn enwedig ei ystyriaeth gyson o anghydraddoldebau iechyd a'i gyfeiriadau at wyddoniaeth ymddygiad, economeg ac iechyd byd-eang. Pwysleisiodd fod cyflawni'r flaenoriaeth strategol yn dibynnu ar gydweithio traws-sefydliadol.

Cynigiodd IB weithio gyda TF i gryfhau'r gwerthusiad o ymyriadau ac alinio adrodd yn y dyfodol â'r Fframwaith Canlyniadau.
Cam Gweithredu: IB

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** fod cynnydd priodol yn cael ei wneud ar Flaenoriaeth Strategol 5 o fewn Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Heintiau.

KRIC 3.7/2026.09.15	**Monitro Effaith ICC**

Cyflwynodd KL ganfyddiadau dull Monitro Effaith Iechyd Cyhoeddus Cymru. Nododd yr adborth themâu cylchol yn ymwneud â hygyrchedd, defnyddioldeb ac amseroldeb gwybodaeth sefydliadol a'r gallu i'w rhoi ar waith, ochr yn ochr â'r angen am gyfranogiad cryfach gan ddefnyddwyr wrth ddatblygu cynnyrch.

Cynghorodd KL fod y canfyddiadau'n gyson â blynyddoedd blaenorol, gan ddangos bod rhai materion hirhoedlog yn parhau heb eu datrys. Tynnodd sylw at yr angen am berchnogaeth draws-sefydliadol gryfach a chynllun gweithredu gyda chefnogaeth y weithrediaeth i wella effaith a symud gwybodaeth ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Dywedodd IB ei fod yn bwriadu mynd â phapur ynghyd â chynllun gweithredu cysylltiedig trwy gydweithwyr gweithredol a chyhoeddi'r cynllun gweithredu ochr yn ochr â'r adroddiad fel y gallai defnyddwyr ddwyn y Sefydliad i gyfrif am ei gyflawni. Pwysleisiodd mai dyma'r bedwaredd flwyddyn yn olynol y derbyniwyd adborth tebyg a bod angen i'r Sefydliad nawr ddangos ymateb sylweddol.

Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau a chwestiynau, a chodwyd y pwyntiau canlynol:
- Cefnogodd SG y broses o uwchgyfeirio'r canfyddiadau a rhoi'r camau gweithredu a nodwyd yn yr adroddiad ar waith. Gofynnodd am eglurhad ynghylch blwyddyn yr arolwg, gan fod yr adroddiad yn cyfeirio at 2025.
    - Cadarnhaodd KL mai gwall teipio oedd hwn a bod yr arolwg wedi'i gynnal ar ddechrau 2026, cyn i'r wefan newid.
- Croesawodd TR yr ymrwymiad i fwrw ymlaen â'r gwaith a thynnodd sylw at y gwerth posibl o wneud data sefydliadol yn haws i bartneriaid eu cyrchu a'u defnyddio. Cyfeiriodd at y fantais o gael mynediad at wybodaeth yn ddaearyddol, gan alluogi defnyddwyr i adfer data perthnasol ar gyfer ardal leol benodol.
    - Cadarnhaodd KL fod ceisiadau am fwy o fanylder daearyddol wedi codi dro ar ôl tro yn ystod y broses monitro effaith.
- Nododd CP fod heriau tebyg yn bodoli mewn mannau eraill ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ond roedd o'r farn y gallai Iechyd Cyhoeddus Cymru chwarae rhan flaenllaw wrth ddatblygu atebion.

Heb ei gadarnhau

Cytunodd IB i gyflwyno papur a chynllun gweithredu cysylltiedig i gydweithwyr y Weithrediaeth ac i gyhoeddi'r cynllun gweithredu ochr yn ochr â'r Adroddiad Monitro Effaith.
Cam Gweithredu: IB

Ystyriodd y Pwyllgor ganfyddiadau dull Monitro Effaith Iechyd Cyhoeddus Cymru a chefnogodd y gweithgareddau sydd ar y gweill i wella effaith sefydliadol.

KRIC 4/2026.09.15	**Eitemau i'w Cymeradwyo**
KRIC 4.1/2026.09.15	**Cofnodion,Log Gweithredu a Materion yn codi Cyfarfod (16 Mehefin 2026)**

Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2026 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

Cyflwynodd LB y cofnod camau gweithredu a dywedodd fod pedwar cam gweithredu o'r cyfarfod blaenorol yn hwyr, gyda diweddariadau cynnydd wedi'u cofnodi yn eu herbyn. Roedd un cam gweithredu yn gofyn am ddiweddariad llafar ynghylch yr adolygiad o orgyffwrdd rhwng y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella a'r Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd, gan gynnwys ystyried trafodaeth ar y cyd arfaethedig.

Byddai LB yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn dilyn y cyfarfod ac yn dosbarthu'r cynnig ynghylch ystyriaeth y Pwyllgor ar y cyd o faterion sy'n gorgyffwrdd i Gadeiryddion y Pwyllgorau perthnasol i'w drafod.
Cam Gweithredu: LB

Cymeradwyodd y Pwyllgor gau'r camau gweithredu a gwblhawyd ar y cofnod o gamau gweithredu.

KRIC 4.2/2026.09.15	**Polisïau i'w cymeradwyo**

Cyflwynodd AD y Polisi Camymddwyn Ymchwil a chynghorodd fod y polisi presennol wedi'i ddiweddaru i'w alinio â dogfennau a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Cadarnhaodd ei fod wedi cwblhau'r broses adolygu fewnol.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Ystyriodd** y wybodaeth yn y Polisi Ymchwil ac Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb ar Iechyd.
- **Nododd** fod y Tîm Arweinyddiaeth wedi cymeradwyo'r polisi i'r Pwyllgor ac wedi cymeradwyo'r Weithdrefn Camymddwyn Ymchwil.
- **Cymeradwyodd** y Polisi Camymddwyn Ymchwil.

KRIC 5/2026.09.15	**Eitemau i'w Nodi**
KRIC 5.1/2026.09.15	**Cynllun Gwaith Pwyllgor**

Nododd y Pwyllgor y cynllun gwaith.

KRIC 5.2/2026.09.15	**Diweddariad Traciwr Argymhellion Archwilio**

Heb ei gadarnhau

Cyflwynodd LB y Traciwr Argymhellion Archwilio er gwybodaeth. Cynghorodd fod yr argymhellion yn deillio o Archwiliad Trawsnewid Digidol Archwilio Cymru a thynnodd sylw at y ffaith bod y traciwr yn cynnwys yr argymhellion allweddol sy'n berthnasol i'r Pwyllgor. Byddai LB yn dosbarthu adroddiad llawn Archwiliad Trawsnewid Digidol Archwilio Cymru i aelodau'r Pwyllgor i roi cyd-destun i'r argymhellion. **Cam Gweithredu: LB** **Nododd** y Pwyllgor y Traciwr Argymhellion Archwilio.
KRIC 6/2026.09.15 | **Materion Gweinyddol i Gloi**
Mynegodd aelodau'r Pwyllgor eu gwerthfawrogiad i SG am ei chyfraniad sylweddol i'r Pwyllgor a diolchodd iddi am ei chefnogaeth a'i harweinyddiaeth yn ystod ei chyfnod fel Cadeirydd. Fe wnaethon nhw estyn eu dymuniadau gorau ar gyfer y dyfodol. Gwahoddwyd aelodau'r pwyllgor i roi adborth ar y cyfarfod drwy e-bost at FL, LB neu'r Cadeirydd, gan gynnwys unrhyw agweddau a oedd wedi gweithio'n dda ac unrhyw feysydd i'w gwella. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: **15 Rhagfyr 2026.**
Daeth y cyfarfod i ben am 15:31

Heb ei gadarnhau